Sglein ar y Sgiliau

Sgiliau Allweddol

Mae unrhyw waith rydych chi'n ei wneud yn Gymraeg, bron, yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer y Sgiliau Allweddol.

Ffurfiau llafar

Mae siarad mewn grŵp, gwneud cyflwyniad, gwneud fideo ac ati yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Cyfathrebu C2.1a a C2.1b.

Ffurfiau ysgrifenedig

Mae gwneud gwaith ysgrifennu yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Cyfathrebu C2.3.

Mae'n bosibl y bydd paratoi eich gwaith drwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Technoleg Gwybodaeth TG 3.1, TG 3.2, TG 3.3. hefyd,

Chwilio am wybodaeth

Cyn dechrau siarad ac ysgrifennu am bynciau arbennig yn Gymraeg, rhaid chwilio am wybodaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Cyfathrebu,C2.2. ac efallai Sgil Allweddol Technoleg Gwybodaeth TG3.1 a

TG3.2. Mae'n bosibl hefyd y byddwch chi'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Cymhwyso Rhif, Rh 3.1, ond bydd hyn yn dibynnu ar ba fath o wybodaeth rydych chi'n delio â hi.

Gweithio'n drefnus

Mae'r ffordd rydych chi'n gweithio'n bwysig. Wrth i chi gynllunio, trefnu, gwerthuso, drafftio ac ailddrafftio eich gwaith, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun, GDP 3.1, GDP 3.2, GDP 3.3.

Hefyd, mae'n siŵr y byddwch chi'n gweithio gyda phobl eraill — pobl yn eich grŵp Cymraeg, pobl ym myd gwaith, eich tiwtor. Mae'n bosibl y bydd hyn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau ac i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Sgil Allweddol Gweithio Gydag Eraill GGE3.1, GGE 3.2, GGE 3.3.

Datrys Problemau

Efallai bydd cyfle i chi ddatblygu'ch sgiliau ac i gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer Sgil Allweddol Datrys Problemau hefyd.

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am y Sgiliau Allweddol yn y ddogfen Cyflwyniad i Sgiliau Allweddol, ACCAC, 2000.

datblygu	*to develop*	technoleg gwybodaeth	*information technology*
cynhyrchu	*to generate, to produce*	cymhwyso rhif	*application of number*
tystiolaeth	*evidence*	gwerthuso	*to evaluate*
cyfathrebu	*communication*	datrys	*to solve*